

Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor 2013).

Cwblhawyd gan: Sheree Davies **Rôl:** Swyddog Datblygu, Gwybodaeth ac Addysg

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan **Dyddiad:** 11/01/2021

Rwy'n cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cymeradwyo cynnwys yr asesiad hwn

Ydy / Nac ydy

Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i
impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi/cynnig sy'n cael ei asesu. Amlinellwch ddiben y polisi.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd ymgynghori ar gynnig ad-drefnu ysgolion sy'n ymwneud â chyfuno Ysgol Feithrin Kimberley ac Ysgol Feithrin Fair oak yn un ysgol ar safle presennol Ysgol Feithrin Fair oak a hynny o fis Medi 2021. Mae'r ymgynghori wedi galluogi Cyngor Dinas Casnewydd i holi barn pobl am y cynnig. Cyhoeddwyd y cynnig wedyn drwy hysbysiad statudol gan 1^{af} Rhagfyr 2020 – 6^{ed} Ionawr 2021. Oherwydd na chafwyd gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio.

Mae Ysgol Feithrin Kimberley yn ysgol feithrin gymunedol a gynhelir ac wedi'i lleoli oddi ar Malpas Road, yn ward Shaftesbury. Mae ganddi nifer derbyn cyhoeddedig o 80 o ddisgyblion, sy'n cyfateb i 40 o ddisgyblion fesul sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn, gydag ystod oedran rhwng 3 a 4 oed. Mae'r ysgol feithrin hefyd yn cynnal Dosbarth Cyfathrebu â lle i 16 o blant 3-4 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Ysgol Feithrin Fair oak yn ysgol feithrin gymunedol a gynhelir ac wedi'i lleoli yn ward Sain Silian, ar y ffin â ward Victoria. Mae ganddi nifer derbyn cyhoeddedig o 144 o ddisgyblion, sy'n cyfateb i 72 o ddisgyblion fesul sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn, gydag ystod oedran rhwng 3 a 4 oed.

Kimberley a Fair oak yw'r unig ddwy ysgol feithrin gymunedol annibynnol a gynhelir yng Nghasnewydd (sy'n golygu nad ydynt ynghlwm wrth ysgol gynradd). Mae pennaeth parhaol Ysgol Feithrin Fair oak wedi rheoli'r ddwy ysgol dan drefn Pennaeth Gweithredol ers mis Medi 2018. Mae'r niferoedd a gafodd eu derbyn i leoedd prif ffrwd yn yr ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod tua 50% o'r niferoedd

derbyn cyhoeddedig, gyda thua 50 o leoedd yn cael eu neilltuo yn Kimberley. Dim ond 39 o leoedd oedd yn llawn yn Kimberley ar gyfer Medi 2019, sy'n llai na hanner y nifer derbyn cyhoeddedig. Mae hyn yn dangos gostyngiad parhaus yn nifer y disgyblion er bod mwy o leoedd yn debygol o gael eu cymryd gan blant sy'n codi'n 3 oed.

Mae Ysgol Feithrin Kimberley wedi bod yn gweithredu gyda chyllideb diffyg am y pedair blynedd diwethaf ac mae'n rhagweld balans cau wrth gefn negyddol o tua £125,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21. Mae Ysgol Feithrin Fairoak yn rhagweld gwarged bach o tua £2,000 ar gyfer yr un cyfnod. Byddai balansau wrth gefn, gwarged neu ddiffyg, yn trosglwyddo i'r gyllideb addysg ganolog fel pwysau yn ystod y flwyddyn ac ni fyddai'n aros gyda'r ysgol sydd newydd ei chyfuno.

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Feithrin Fairoak wedi gostwng ac mae 59 o'r 144 o leoedd yn llawn ym mis Ionawr 2019, a dim ond 51 o leoedd oedd yn llawn ym Medi 2019. Ar draws y ddau safle, mae 224 o leoedd hanner diwrnod ar gael, gyda'r rhai a gaiff eu llenwi yn gostwng o 72% yn Ionawr 2017 i ddim ond 47% erbyn Ionawr 2019. Gellid bod wedi darparu ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr (derbyniadau Medi ac Ionawr) ar draws y ddau safle yn adeilad Fairoak.

Felly mae'r Cyngor o'r farn nad yw model gweithredu presennol ysgolion meithrin Kimberley a Fairoak sydd ar waith yn y ddau safle gydag oddeutu 50% o leoedd dros ben yn economaidd hyfyw ac, ar ôl ystyried ystod o opsiynau, mae'n cynnig cyfuno'r ddwy ysgol ar safle Ysgol Feithrin Fairoak.

Mae Ysgol Feithrin Kimberley ar hyn o bryd yn cynnal Dosbarth Cyfathrebu, sy'n darparu addysg feithrin arbennig i blant o bob rhan o Gasnewydd, a chredir ei bod yn wasanaeth gwerthfawr a buddiol. Dan y cynnig, bwriad y Cyngor yw parhau i gynnig y gwasanaeth hwn, fodd bynnag, bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hadleoli i Ysgol Feithrin Fairoak.

2. Amlinellwch sut rydych chi wedi ymgynghori/sut byddwch chi'n ymgynghori â'r rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt. Cyfeiriwch yn benodol at ganllawiau AEDCh sy'n ymwneud â dyletswyddau iaith Gymraeg perthnasol.

Ymgwymerir â'r cynnig yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Lansiwyd y cyfnod ymgynghori yn wreiddiol i redeg o 10 Mawrth 2020 tan 21 Ebrill 2020. Oherwydd cau pob ysgol mewn ymateb i bandemig Covid-19, diddymwyd yr ymgynghoriad ar 30 Mawrth 2020. Ail-lansiwyd y cynnig wedyn pan ailagorodd ysgolion ar 29 Mehefin 2020 gan bara tan 11 Medi 2020.

Roedd y cyfnod ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Roedd cyfuniad o ddulliau ymgynghori ar-lein ac wyneb yn wyneb yn sicrhau yr oedd modd i'r rhai yr oedd y cynnig yn effeithio arnynt fwyaf uniongyrchol gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ac roedd swyddogion y Cyngor wrth law i esbonio'r cynnig yn fanylach ac ateb unrhyw gwestiynau.

Anfonwyd e-bost at Bennaeth y ddwy ysgol Feithrin i rannu manylion y cynnig gyda rhieni, plant a staff yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Cafodd negeseuon e-bost rhanddeiliaid eu hanfon at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd. Cafodd y cynnig ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Roedd y broses ymgynghori yn cynnwys un sesiwn galw heibio ym Meithrinfa Fairoak yn ystod lansiad cychwynnol y cynnig, lle roedd swyddogion y Cyngor wrth law i egluro'r cynigion yn fwy manwl ac ateb

unrhyw gwestiynau. Yn sgil cau pob ysgol ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig Covid-19, cafodd y sesiwn galw heibio arfaethedig yn Ysgol Feithrin Kimberley ei chanslo ac ni chafodd ei had-drefnu ar gyfer ail-lansio'r cynnig.

Lluniwyd Fersiwn Gryno i Blant a Phobl Ifanc o'r ddogfen ymgynghori hon. Mae'r fersiwn hon yn ogystal â'r fersiwn lawn ar gael drwy wefan CDC www.newport.gov.uk/schoolreorganisation. Gallwch hefyd ofyn am gopiau caled drwy anfon e-bost at school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656.

Roedd modd cyflwyno sylwadau a chwestiynau drwy e-bost neu drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y ffurflen hon ar gael yn y sesiynau galw heibio ac roedd modd ei chyflwyno ar wefan y Cyngor. Hefyd rhannodd y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook wybodaeth am y newidiadau arfaethedig.

Yn gyffredinol, derbyniwyd 18 ymateb yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori.

Gwnaed wyth ymateb trwy'r ffurflen ymateb safonol gan y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni/gofalwyr presennol/blaenorol a darpar rieni/ofalwyr disgyblion yn Ysgol Feithrin Kimberley
- Trigolion yn ardal Ysgol Feithrin Fair Oak
- Staff yn ysgolion Casnewydd
Llywodraethwyr yn ysgolion Casnewydd

Cafwyd deg ymateb trwy e-bost, gan y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni/gofalwyr presennol/blaenorol a darpar rieni/ofalwyr disgyblion yn Ysgol Feithrin Kimberley
- Pennaeth blaenorol Ysgol Feithrin Kimberley
- Aelod etholedig o Gasnewydd
- Cynrychiolydd Undeb Llafur
- Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriodd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd y farn a fynegwyd ac mae wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig. Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd, gyda chopiau wedi eu harddangos yn safleoedd yr ysgolion perthnasol. Anfonwyd e-bost at Bennaeth y ddwy ysgol Feithrin i rannu'r manylion gyda rhieni, plant a staff yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Cafodd negeseuon e-bost rhanddeiliaid eu hanfon at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd hefyd.

Parodd y cyfnod hysbysu statudol am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, gan alluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Oherwydd na chafwyd gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio.

3. Pa wybodaeth/dystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? (E.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ac ati.) Nodwch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Y rhanddeiliaid allweddol a fydd yn ymwneud â'r cynnig hwn yw plant, teuluoedd a gofalwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth meithrinfeydd cyn ysgol. Bydd hyn hefyd yn ymwneud â staff yr ysgolion dan sylw.

Mae'r Cod statudol yn amlinellu'r rhanddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses hon sy'n cynnwys ysgolion, rhieni, aelodau etholedig, cynghorau cymuned ac undebau llafur. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â chynigion blaenorol. Roedd ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid yn cynnwys disgyblion yn y ddwy ysgol yr effeithiwyd arnynt.

Lleolir Ysgol Feithrin Kimberley yn ward Shaftesbury ond mae data yn ddiweddar yn dangos bod y feithrinfa'n denu disgyblion o wardiau eraill; yn bennaf mae'r disgyblion hyn o wardiau'r Betws a Malpas gyda disgyblion eraill yn dod o wahanol ardaloedd ar draws y ddinas.

Mae ward Shaftesbury yn cynrychioli tua 0.86% o gyfanswm arwynebedd Casnewydd ac mae'n gartref i 3.53% o gyfanswm poblogaeth y ddinas. Dengys ffigurau poblogaeth y SYG fod tua 7.55% o boblogaeth y ward yn 0 i 4 oed. Mae hyn yn uwch na ffigur Casnewydd, sef 6.71%. Mae data a dderbyniwyd yn ddiweddar o Hyb Gwybodaeth Cyngor Dinas Casnewydd yn dangos bod 13% o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Feithrin Kimberley yn ward Shaftesbury.

Mae ward Betws yn cynrychioli tua 2.70% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 5.27% o gyfanswm poblogaeth y ddinas. Dengys ffigurau poblogaeth y SYG fod tua 7.13% o boblogaeth y ward yn 0 i 4 oed. Mae hyn yn uwch na ffigur Casnewydd, sef 6.71%. Mae data a gafwyd yn ddiweddar o Hyb Gwybodaeth Cyngor Dinas Casnewydd yn dangos bod 22% o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Feithrin Kimberley yn ward Betws.

Mae ward Malpas yn cynrychioli tua 1.09% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 5.25% o gyfanswm poblogaeth y ddinas. Dengys ffigurau poblogaeth y SYG fod tua 5.72% o boblogaeth y ward yn 0 i 4 oed. Mae'r ffigur hwn yn is na ffigur Casnewydd, sef 6.71%. Mae data a dderbyniwyd yn ddiweddar o Hyb Gwybodaeth Cyngor Dinas Casnewydd yn dangos bod 62% o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Feithrin Kimberley yn ward Malpas.

Datblygwyd y cynnig yn sgil y gostyngiad yn y niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf yn Ysgol Feithrin Kimberley ac Ysgol Feithrin Fair oak, gan fod 53% o leoedd gwag ar draws y ddwy ysgol.

Mae ward Sain Silian yn cynrychioli tua 1.02% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 5.77% o gyfanswm poblogaeth y ddinas. Dengys ffigurau poblogaeth y SYG fod tua 6.28% o boblogaeth y ward yn 0 i 4 oed. Mae'r ffigur hwn yn is na ffigur Casnewydd, sef 6.71%.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cafwyd deunaw ymateb. Roedd 4 o bobl yn cefnogi'r cynnig, roedd 2 yn cefnogi'r cynnig yn rhannol, ac nid oedd 12 yn cefnogi'r cynnig. Y prif reswm dros wrthwynebu'r cynnig oedd y byddai'n golled i'r gymuned leol. Cododd ysgol yr Eglwys yng Nghymru leol, sydd heb ddosbarth meithrin, y pryder y gallai'r cynnig effeithio ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd am leoedd Derbyn yn yr ysgol.

Ar ôl ymgynghori, rhoddwyd y safbwyntiau a fynegwyd mewn adroddiad ymgynghori a ystyriwyd gan Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd wrth benderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig. Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd, gyda chopïau wedi eu harddangos yn safleoedd yr ysgolion perthnasol. Anfonwyd e-bost at Bennaeth y ddwy ysgol Feithrin i rannu'r manylion gyda rhieni, plant a staff yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Cafodd negeseuon e-bost rhanddeiliaid eu hanfon at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd hefyd.



Parodd y cyfnod hysbysu statudol am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, gan alluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Oherwydd na chafwyd gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio.

4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Niwtral	
Oedran	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd y cynnig yn gweld gostyngiad yn y ddarpariaeth leol o leoedd meithrin a ariennir yn yr ardal o gwmpas Kimberley. Er bod digon o leoedd dros ben yn yr ardal i ddarparu lleoedd i blant a fyddai'n dechrau ym mis Medi, efallai y bydd yn rhaid i rai teuluoedd deithio ymhellach i gael mynediad i leoedd i blant sy'n codi'n 3 oed ym mis Ionawr neu Ebrill. Gallai cyfuno Kimberley a Fairoak olygu mwy o deithio i'r disgyblion o'r ardaloedd Betws/Malpas/Shafesbury i gael mynediad i ddarpariaeth feithrin.
Anabledd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mae Ysgol Feithrin Kimberley ar hyn o bryd yn cynnal Dosbarth Cyfathrebu, sy'n darparu addysg feithrin arbennig i blant o bob rhan o Gasnewydd, a chredir ei bod yn wasanaeth gwerthfawr a buddiol. Dan y cynnig hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i gynnig y gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hadleoli i Ysgol Feithrin Fairoak.
Ailbennu rhywedd / trawsryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon.

Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Niwtral	
Priodas neu bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon.
Hil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon.
Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Yn ystod y cyfnod ymgynghori, dywedodd rhai ymatebwyr y gallai'r cynnig effeithio ar Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas gan fod llawer o ddisgyblion yn mynychu Meithrinfa Kimberley cyn symud i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, gan nad oes gan yr ysgol ei darpariaeth feithrin ei hun. Fodd bynnag, mae holl ddarpariaeth y feithrinfa yn anenwadol. Felly, nid oes gostyngiad yn narpariaeth meithrinfeydd ffydd o dan y cynnig hwn, ac ni fydd effaith ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd warchoddedig hon.
Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ni fydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg. Bydd pob ysgol a dosbarth meithrin a gynhelir yn y gymuned yn parhau i ddefnyddio ac addysgu'r Gymraeg yn unol â'r cwricwlwm cenedlaethol.

5 Sut mae eich cynnig wedi gwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwysu angen tymor byr ag anghenion tymor hir</p>	<p>Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Feithrin Fairoak wedi gostwng ac mae dim ond 59 o'r 144 o leoedd wedi'u cymryd ym mis Ionawr 2019, a dim ond 49 o leoedd a gymerwyd yn ystod y flwyddyn academaidd newydd ym Medi 2019. Yn ôl cyfrifiad disgyblion mis Ionawr yn ystod 2018 a 2019, gellid bod wedi darparu ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr (Medi ac Ionawr) ar draws y ddau safle yn adeilad Fairoak. Mae'r niferoedd a dderbyniwyd ym mis Medi 2019 yn dangos parhad o'r duedd hon.</p> <p>Mae Ysgol Feithrin Kimberley wedi bod yn gweithredu gyda chyllideb diffyg am y pedair blynedd diwethaf ac mae'n rhagweld balans cau wrth gefn negyddol o tua £125,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21. Mae Ysgol Feithrin Fairoak yn rhagweld gwaged bach o tua £2,000 ar gyfer yr un cyfnod. Byddai balansau wrth gefn, gwaged neu ddiffyg, yn trosglwyddo i'r gyllideb addysg ganolog fel pwysau yn ystod y flwyddyn ac ni fyddai'n aros gyda'r ysgol sydd newydd ei chyfuno.</p> <p>Mae'r cynnig i gyfuno yn rhoi cyfle i'r tîm arwain gronni adnoddau a gweithredu model busnes cynaliadwy ar gyfer darpariaeth cyn ysgol ar un safle.</p> <p>Bydd staff sy'n cael eu cyflogi i weithio yn y Dosbarth Cyfathrebu ar hyn o bryd yn cael cynnig cyfle i wneud cais am yr un swyddi ar ôl cyfuno. Bydd hyn yn sicrhau y bydd safon uchel yr addysg, y gofal a'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd yn parhau os caiff y dosbarth ei adleoli i Fairoak.</p> <p>Ni fydd yr adleoli arfaethedig yn effeithio ar y broses bresennol o arwain a rheoli'r dosbarth cyfathrebu dysgu.</p>
 <p>Collaboration</p> <p>Cydweithio i gyflawni amcanion</p>	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chael ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.</p> <p>Cyflawnwyd y cynnig drwy ymgysylltu'n llawn â thimau arwain Kimberley a Fairoak, a thimau Cynhwysiant Addysg a Blynnyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd.</p>



Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn

Bydd y rhanddeiliaid canlynol yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori:

- Rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion yr effeithir arnynt;
- Disgyblion sy'n mynychu ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt;
- Aelodau o staff a gyflogir ar hyn o bryd gan yr holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Awdurdodau lleol cyfagos ar draws ardal Consortiwm De-ddwyrain Cymru;
- Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Holl Benaethiaid Gwasanaethau Cyngor Dinas Casnewydd;
- Holl Gynghorau Cymuned ledled Casnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;
- Estyn;
- Undebau llafur staff a staff addysgu sy'n cynrychioli athrawon a staff a gyflogir yn yr holl ysgolion y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Pob darparwr addysg feithrin cofrestredig nas cynhelir ar draws Casnewydd;
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau ataliol;

Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, cafodd Adroddiad Ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a Sgiliau'r a wnaeth y penderfyniad i fwrw ymlaen, a chyhoeddwyd hysbysiad statudol.

Yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol, gan na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio. Mae'r AEDCh wedi'i ddiweddarau ar y cam hwn.

Bydd y cynnig yn lleihau nifer y lleoedd gwag sydd ar gael, gan fod modd darparu ar gyfer niferoedd Ysgol Feithrin Kimberley ynghyd ag Ysgol

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
<div data-bbox="204 309 359 459" data-label="Image"> </div> <div data-bbox="231 459 335 481" data-label="Text"> <p>Prevention</p> </div> <p data-bbox="145 499 371 701">Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p data-bbox="459 302 1406 371">Feithrin Fairoak yn gyfforddus yn adeilad y feithrinfa yn Fairoak ar hyn o bryd.</p> <p data-bbox="459 421 1406 685">Mae Ysgol Feithrin Kimberley wedi bod yn gweithredu gyda chyllideb diffyg am y pedair blynedd diwethaf ac mae'n rhagweld balans cau wrth gefn negyddol o tua £125,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21. Mae Ysgol Feithrin Fairoak yn rhagweld gwarged bach o tua £2,000 ar gyfer yr un cyfnod. Byddai balansau wrth gefn, gwarged neu ddiffyg, yn trosglwyddo i'r gyllideb addysg ganolog fel pwysau yn ystod y flwyddyn ac ni fyddai'n aros gyda'r ysgol sydd newydd ei chyfuno.</p> <p data-bbox="459 730 1406 954">Mae'r tuedd o gyfrifiad disgyblion mis Ionawr yn ystod 2018 a 2019 a'r nifer o ddisgyblion ar y gofrestr yn dangos gellid bod wedi darparu ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr (Medi ac Ionawr) ar draws y ddau safle yn adeilad Fairoak. Mae'r lleoedd a gymerwyd ym mis Medi 2019 yn dangos bod y tuedd hwn yn parhau, gyda dim ond 82 o'r 224 o leoedd hanner diwrnod prif ffrwd wedi'u cymryd.</p> <p data-bbox="459 999 1406 1189">Credir bod y Dosbarth Cyfathrebu a gynhelir yn Ysgol Feithrin Kimberley ar hyn o bryd yn wasanaeth gwerthfawr a buddiol sy'n cynnig addysg feithrin arbenigol i blant o bob rhan o Gasnewydd. Bwriad y Cyngor yw parhau i gynnig y gwasanaeth hwn, fodd bynnag, dan y cynnig, bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hadleoli i Ysgol Feithrin Fairoak.</p>
<div data-bbox="220 1400 359 1534" data-label="Image"> </div> <div data-bbox="242 1541 338 1563" data-label="Text"> <p>Integration</p> </div> <p data-bbox="145 1581 424 1697">Ystyried effaith ar bob nod lles ar y cyd ac ar gyrff eraill</p>	<p data-bbox="459 1220 1406 1406">Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol a chaiff ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Lles "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Lles eraill.</p>

6 A fydd y cynnig/polisi'n cael effaith anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Byddai cyfuno ysgol feithrin Kimberley a Fairoak ar safle ysgol feithrin Fairoak yn arwain at 80 o leoedd meithrin a ariennir hanner diwrnod yn cael eu hadleoli o ward Shaftesbury. Mae plant o wardiau Betws a Malpas hefyd yn mynychu Ysgol Feithrin Kimberley, fodd bynnag, mae dosbarthiadau meithrin ym mhob ysgol gymunedol a gynhelir ac mae mwy o leoedd ar gael mewn lleoliadau nas cynhelir yn yr ardal.

7 Sut mae'r cynnig/polisi'n berthnasol i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth gydnabod gwahaniaeth

Mae'r cynnig yn cefnogi economi gymysg o ddarpariaeth cyn ysgol i ddiwallu anghenion gwahanol ein plant.

Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu'r lleoedd yn Ysgol Feithrin Kimberley ers nifer o flynyddoedd ac mae'r niferoedd wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf gyda lleoedd yr hydref a ddyrannwyd yn mynd dan 50%, gyda'r niferoedd y plant sy'n codi'n 3 yn nhymor y gwanwyn yn dal i adael nifer sylweddol o leoedd yn wag. Caiff dinasyddion eu hannog i wneud cais am leoedd meithrin gan yr awdurdod lleol a chaiff y cyfnodau ymgeisio eu cyhoeddi a bydd yn bosib gwneud ceisiadau ar-lein ac ar bapur.

Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn perthnasoedd cymunedol

Bydd cyfuno Ysgol Feithrin Kimberley ac Ysgol Feithrin Fairoak yn rhoi cyfle i'r ysgolion yn ardaloedd Shaftesbury/Betws/Malpas gyda lleoedd gwag i lenwi'r lleoedd sydd ar ôl ond hefyd bydd yn gyfle i'r meithrinfeydd preifat gynyddu eu niferoedd. Mae cyfuno Ysgol Feithrin Kimberley ac Ysgol Feithrin Fairoak yn galluogi parhad darpariaeth feithrin annibynnol a pharhad y dosbarth cyfathrebu wrth gefnogi llwyddiant ysgolion cynradd a gynhelir yn y gymuned.

Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau

Ymgynghorwyd â'r cynnig a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw ac atebol o ran y wybodaeth a geir ynddi. Mae'n galluogi dinasyddion i gyfranogi'n effeithiol ac mewn modd democrataidd.

8. Effeithiau Cydraddoldeb a Chamau Gweithredu

Cwblhewch y cynllun gweithredu isod sy'n nodi'r camau a fydd yn cael/na fydd yn cael eu cymryd er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y mae eich asesiad wedi'u nodi.

Effaith a nodwyd	Ar bwy y mae'n effeithio?	Beth wnewch chi i liniaru'r effaith? Os ydych yn bwriadu peidio â gweithredu, rhowch y rhesymau dros y penderfyniad hwn	Pwy sy'n gyfrifol?
1 Gostyngiad yn nifer y lleoedd meithrin sydd ar gael yn yr ardal bresennol sef Ysgol Feithrin Kimberley	Rhieni plant oed Meithrin	<p>Bydd darpariaeth cyn ysgol brif ffrwd yn parhau i gael ei darparu o safle Ysgol Feithrin Fairoak. Mae chwech o'r saith darparwr meithrinfeydd amgen yn yr ardal wedi derbyn dyfarniad 'Da' neu well ym mhob un o'r meysydd arolygu allweddol. Mae hyn yn dangos y bydd safon uchel y gofal addysgol yn cael ei gynnal os caiff y cynnig ei weithredu.</p> <p>Er y byddai cyfuno'r ysgolion meithrin yn golygu gostyngiad yn y ddarpariaeth, ni ddisgwylir i'r gostyngiad mewn lleoedd meithrin gael effaith sylweddol ar ansawdd addysg na lles plant a allai fod wedi mynychu Ysgol Feithrin Kimberley fel arall.</p>	CDC
2 Symud y dosbarth cyfathrebu o Kimberley i Fairoak	Staff a disgyblion y dosbarth cyfathrebu.	Ar hyn o bryd, rheoli meithrinfeydd Kimberley a Fairoak gan yr un Pennaeth Gweithredol a bydd staff sy'n cael eu cyflogi i weithio yn y Dosbarth Cyfathrebu ar hyn o bryd yn cael cynnig cyfle i wneud cais am yr un swyddi ar ôl cyfuno. Bydd hyn yn sicrhau y bydd safon uchel yr addysg, y gofal a'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd yn parhau os caiff y dosbarth ei adleoli i Fairoak.	CDC

		Ni fydd y cyfuno arfaethedig yn effeithio ar lefel y cymorth a'r arweiniad gofal a ddarperir gan y gwasanaeth hwn. Bydd cludiant yn ôl disgresiwn yn dal i gael ei ddarparu i ddisgyblion sydd wedi'u lleoli yn y Dosbarth Cyfathrebu Iaith ac sy'n byw mwy na 2 filltir i ffwrdd.	
Gallai tynnu darpariaeth feithrinfa o Kimberley effeithio'n negyddol ar y nifer sy'n cymryd lleoedd yn Ysgol Gynradd Malpas yr Eglwys yng Nghymru. Mae llawer o deuluoedd o'r farn bod pontio naturiol rhwng y ddau.	Staff a disgyblion Ysgol Gynradd Malpas yr Eglwys yng Nghymru	Wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, nid oedd y Cyngor yn rhagweld unrhyw effaith andwyol ar Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Malpas, a dyna'i farn o hyd. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod yr ysgol hon yn hyfyw a bydd yn gweithio gyda thîm arwain yr ysgol i sicrhau dyfodol cynaliadwy.	CDC

9. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Cafodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wnaed yn ystod y broses eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chafodd ei ystyried pan benderfynodd y Cyngor ar y ffordd ymlaen.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd y farn a fynegwyd ac mae wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda chyhoeddi hysbysiad statudol. Roedd y cynnod hysbysiad statudol yn para 28 diwrnod ar ôl y dyddiad cyhoeddi, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a'i bostio wrth gatiâu'r ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Gwnaeth hyn alluogi pobl i fynegi eu barn i gefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Oherwydd na chafwyd gwrthwynebiadau, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio.

10. Cynnwys Pobl

Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig. Roedd y cynnig ar gael ar-lein yn Gymraeg a Saesneg, drwy wefan Cyngor Dinas Casnewydd, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol, ac fel copi caled. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys un sesiwn galw heibio yn Ysgol Feithrin Fair oak, lle roedd swyddogion y Cyngor wrth law i esbonio'r cynigion yn fanylach ac ateb unrhyw gwestiynau. Yn sgil cau pob ysgol ym mis Mawrth 2020, cafodd yr 2^{il} sesiwn galw heibio arfaethedig a drefnwyd yn Ysgol Feithrin Kimberley ei chanslo ac ni chafodd ei had-drefnu ar gyfer ail-lansio'r cynnig. Gellid e-bostio unrhyw gwestiynau at school.reorg@newport.gov.uk.

Yn gyffredinol, derbyniwyd 18 ymateb yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori.

Gwnaed wyth ymateb trwy'r ffurflen ymateb safonol gan y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni/gofalwyr presennol/blaenorol a darpar rieni/ofalwyr disgyblion yn Ysgol Feithrin Kimberley
- Trigolion yn ardal Ysgol Feithrin Fair oak
- Staff yn ysgolion Casnewydd
- Llywodraethwyr yn ysgolion Casnewydd

Cafwyd deg ymateb trwy e-bost, gan y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni/gofalwyr presennol/blaenorol a darpar rieni/ofalwyr disgyblion yn Ysgol Feithrin Kimberley
- Pennaeth blaenorol Ysgol Feithrin Kimberley
- Aelod etholedig o Gasnewydd
- Cynrychiolydd Undeb Llafur
- Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)

Yn ystod y lansiad cychwynnol, cynhaliwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda grŵp o blant meithrin o Feithrinfa Fair oak. Pan ail-lansiodd yr ymgynghoriad, cynhaliwyd gweithgaredd tebyg gyda disgyblion ym Meithrinfa Kimberley, er nad oedd aelodau o Gyngor Dinas Casnewydd yn bresennol

oherwydd y sefyllfa iechyd barhaus, a chymerodd aelod o staff y Feithrinfa nodiadau o ymatebion y disgyblion.

Cafodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wnaed yn ystod y broses eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chafodd ei ystyried pan benderfynodd y Cyngor ar y ffordd ymlaen.

Penderfynwyd i gyhoeddi hysbysiad statudol ac roedd y cyfnod yn galluogi pobl i fynegi eu barn ar ffurf cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Oherwydd na chafwyd gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio.

11. Crynodeb o Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru)

Ceir ysgolion yn yr ardal sydd â chapasiti dros ben i dderbyn y rhai sydd, o bosibl, wedi gwneud cais fel arall am Ysgol Feithrin Kimberley. Felly bach iawn fydd yr effaith ar argaeledd lleoedd meithrin.

Y Gymraeg

Cydnabyddir nad yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod o hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, bydd pob ysgol sydd â dosbarth meithrin a gynhelir yn y gymuned yn parhau i ddefnyddio ac addysgu'r Gymraeg yn unol â'r cwricwlwm cenedlaethol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- **Tymor hir: pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i fodloni anghenion tymor hir:**

Mae nifer y disgyblion yn gostwng yn y ddwy ysgol, ac mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos y gellid darparu ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr ar draws y ddwy ysgol yn adeilad mwy o faint Fairoak. Yn ogystal, mae Ysgol Feithrin Kimberley wedi bod yn gweithredu gyda diffyg yn ei chyllideb ers peth amser, a rhagwelir y bydd oddeutu £142,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol bresennol 2020/21, gyda Meithrinfa Fairoak hefyd yn rhagweld diffyg o £2,000 bellach. Mae'r cynnig i gyfuno yn rhoi cyfle i'r tîm arwain gyfuno dan y trefniad Pennaeth Gweithredol presennol, ac i Gronni adnoddau a gweithredu model busnes cynaliadwy ar gyfer darpariaeth cyn ysgol ar un safle.
- **Atal: Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i fodloni'n hamcanion:**

Bydd y cynnig yn lleihau nifer y lleoedd gwag sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ysgolion meithrin annibynnol ledled y ddinas. Mae adeilad mwy o faint Fairoak yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer y plant ar gofrestr y ddwy ysgol. Mae Ysgol Feithrin Kimberley wedi bod yn gweithredu gyda diffyg yn ei chyllideb sydd wedi gwaethygu yn y pedair blynedd diwethaf, ac ar hyn o bryd nid oes cynllun cyraeddadwy i ddangos sut y gellir adennill hyn. Mae'r Dosbarth Cyfathrebu a gynhelir yn Ysgol Feithrin Kimberley ar hyn o bryd, yn wasanaeth gwerthfawr a buddiol sydd mawr ei angen ac sy'n cynnig addysg feithrin arbenigol i blant o bob rhan o Gasnewydd. Dan y cynnig hwn, bydd y ddarpariaeth hon yn parhau ond bydd yn cael ei hadleoli i safle Fairoak.
- **Integreiddio: Ystyried sut y bydd y cynigion yn effeithio ar ein hamcanion lles, ein nodau lles, amcanion eraill neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill:**

Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn disgrifio manylion y broses ymgynghori ffurfiol statudol gyda rhanddeiliaid allweddol, gyda'r AEDCh yn cefnogi hyn. Mae'r cynnig yn cefnogi'r Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru â chymunedau cydlynus" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill.

- **Cydweithredu: Ydych chi wedi ystyried sut y gall cydweithredu gydag unrhyw berson arall neu unrhyw ran arall o'n sefydliad helpu i fodloni ein hamcanion lles:**

Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn disgrifio manylion y broses ymgynghori ffurfiol statudol gyda rhanddeiliaid allweddol, gyda'r AEDCh yn cefnogi hyn. Er mwyn cyflawni'r cynnig, mae angen ymgysylltu'n llawn â chyrrff llywodraethu ysgolion a thimau Cynhwysiant Addysg a Blynyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd.

- **Cynnwys Pobl: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y Ddinas a wasanaethwn:**

Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn disgrifio manylion y broses ymgynghori ffurfiol statudol gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd y cyfnod hwn o ymgynghori ffurfiol yn rhoi cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, ac roedd modd i bobl gael rhagor o wybodaeth am y cynnig a sut y gallai effeithio arnynt. Roedd y cyfnod hysbysiad statudol dilynol yn gyfle i randdeiliaid gyflwyno gwrthwynebiadau cyfreithiol yn erbyn y cynnig. Ni chafodd unrhyw wrthwynebiadau cyfreithiol eu gwneud yn yr achos hwn.

Paramedrau Tegwch

- **Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth gydnabod gwahaniaeth:**

Mae'r cynnig yn cefnogi economi gymysg o ddarpariaeth cyn ysgol.

- **Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth:**

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu lleoedd yn Ysgol Feithrin Kimberley, dros y blynyddoedd diwethaf mae'r niferoedd wedi bod yn gostwng gyda Chasnewydd yn hyrwyddo y cyfnodau ymgeisio.

- **Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn perthnasoedd cymunedol:**

Cyfleoedd i'r ysgol sydd â lleoedd gwag i'w llenwi yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt ynghyd â'r lleoliadau nas cynhelir. Mae'r cynnig hwn yn caniatáu parhad darpariaeth feithrin annibynnol a pharhad y dosbarth cyfathrebu.

- **Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau:**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw ac atebol o ran y wybodaeth a geir ynddi. Mae'n galluogi dinasyddion i gyfranogi'n effeithiol ac mewn modd democrataidd.